



4.0 Gwirfoddolwyr

Asesiadau risg - gwirfoddolwyr syn gweithio o gartref

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Asesu Risg
3. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
4. Gwybodaeth bellach

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r ystyriaethau y dylai eich mudiad eu gwneud os yw gwirfoddolwyr wedi'u lleoli gartref.

Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn ymwneud â gweithwyr cyflogedig yn unig. Ond mae gan eich mudiad ddyletswydd gofal tuag at wirfoddolwyr (ac eraill).

Mae hyn yn golygu bod angen i chi osgoi achosi niwed neu anaf i wirfoddolwyr drwy esgeulustod.

Nid yw'n golygu y bydd gwirfoddolwyr yn gweithio mewn amgylchedd heb ddim risg ac nid yw'n bosibl osgoi pob math o risg. Mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr yn derbyn yr wybodaeth berthnasol ar y ffactorau a allai effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch fel eu bod yn ymwybodol o'r risgiau a sut gellir eu rheoli.



Llun: Rhywun wrth ddesg yn gwirfoddoli

Goblygiadau i wirfoddolwyr sy'n gwirfoddoli'n bennaf o'u cartrefi eu hunain

1. Gwiriwch eich yswiriant

- o'u cartrefi yw'n cynnwys gwirfoddoli o gartref?
- A oes unrhyw ofynion penodol, neu eithriadau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt?

2. Asesu risg

Ystyriwch natur y tasgau i'w cyflawni gan y gwirfoddolwr yn eu cartrefi, e.e. gwneud galwadau ffôn, tasgau ar y cyfrifiadur, tasgau ymarferol, a'r ffactorau risg neu'r peryglon a allai fod yn gysylltiedig â'r rhain.

Rhai peryglon posibl, er enghraifft, fyddai **straen** wrth ddarparu cefnogaeth dros y ffôn, a allai fod yn drwm yn emosiynol; a'r defnydd o **sgriniau arddangos** a chyfarpar angenrheidiol i'r rôl.



Dolen Allanol

Mae ffurflen enghreifftiol ar gyfer cynnal asesiad risg ar gael yma [Ffurflen asesu risg enghreifftiol](#)

Y chwe cham ar gyfer rheolaeth risg effeithiol:

Cam Un

Canfod y peryglon/risgiau a allai godi o'r tasgau sydd i'w cyflawni

Cam Dau

Penderfynu pwy allai gael ei niweidio a sut

Cam Tri

Gwerthuso'r risgiau (rhoi sgôr iddynt) a phenderfynu ar y rhagofalon sydd eu hangen er mwyn lliniaru'r risg

Cam Pedwar

Cofnodi'ch canfyddiadau arwyddocaol a rhoi mesurau yn eu lle

Cam Pump

Adolygu'ch asesiad a'i ddiweddarau os oes angen

Cam Chwech

Mae dysgu o ddiwyddiadau yn ffactor allweddol mewn rheolaeth risg effeithiol

Wrth werthuso risg, mae'n bwysig dod i gasgliad ynglŷn â pha mor ddifrifol yw'r risg o niwed a pha mor debygol ydyw o ddigwydd – bydd hyn yn dylanwadu ar eich blaenoriaethau a pha mor ymarferol fydd hi i reoli'r risg.

Er enghraifft, os ydych chi wedi adnabod risgiau sy'n peryglu bywyd, rhaid mynd i'r afael â'r rhain fel mater o flaenoriaeth dros risgiau lefel isel sy'n anhebygol o ddigwydd, beth bynnag fo'r gost neu'r anghyfleustra i chi. Mae'n bwysig cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau rheolaeth risg effeithiol.



Mae rhai meysydd pellach o risg bosibl i chi eu hystyried wedi'u hawgrymu yn atodiad un y daflen wybodaeth:

4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel

3. Cynnal asesiad risg pellach

Gallech ddefnyddio un o'r dulliau gweithredu canlynol:

Trafod gyda'r gwirfoddolwr

Ar ôl adnabod risgiau, mae'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon â'r gwirfoddolwr. Gan ddefnyddio rhestr o'r prif risgiau sy'n peri pryder i chi, siaradwch gyda'r gwirfoddolwr i asesu'r risgiau ymhellach, fel y bo'n briodol, a sut y gellir eu rheoli

Bydd rhai o'r risgiau y byddwch chi wedi'u nodi'n gallu cael eu rheoli drwy hyfforddiant sefydlu neu drwy ddarparu cyfarpar diogelwch, er enghraifft. Diben y drafodaeth hon yw casglu gwybodaeth berthnasol bellach am yr amgylchedd y bydd y gwirfoddolwr yn gweithio o'i fewn neu'r wybodaeth neu alluoedd penodol sydd gan y gwirfoddolwra allai fod yn ffactorau wrth liniaru risg.

Yn sgil eich trafodaeth, dylech fod yn gallu penderfynu'n well pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn lleihau'r risgiau neu eu rheoli. Gwnewch nodyn o'r camau a gymerir.

Hyfforddi eich gwirfoddolwr i asesu risg

Gellid hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain, o bosib gan ddefnyddio rhestr wirio rydych chi wedi'i llunio ar gyfer eu rôl.

Byddai'n bwysig eich bod yn gweld yr asesiad gorffenedig ac yn ei drafod a sicrhau y gwneir nodyn o'r camau gweithredu priodol a'u bod yn cael eu cyflawni.

Cynnal eich asesiad risg eich hun yng nghartref y gwirfoddolwr

Gall hyn fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau – er enghraifft er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn addas neu wedi'i osod yn gywir. Efallai eich bod yn ymweld â'r gwirfoddolwr yn ei gartref ei hun at ddibenion eraill a byddwch yn gallu arsylwi ar yr amgylchedd gwirfoddoli a'r cyfarpar, er enghraifft, drosoch eich hun.

Eto, gallai fod yn ddefnyddiol paratoi rhestr wirio i gofnodi eich canfyddiadau a gwneud nodyn o ba gamau gweithredu a gymerir.

Cofiwch y byddai cynnal asesiad risg yng nghartref gwirfoddolwr heb reswm da yn cael ei ystyried yn ymyriad ar breifatrwydd. Gallech ei drafod yng nghyd-destun adolygiad un i un neu mewn sesiynau goruchwylio gyda'r gwirfoddolwr.

4. Adolygu a diweddarau eich aseiad risg yn rheolaidd.

Dylai'r broses fod yn un barhaus. Dylai'r hyn a ddysgwch drwy'r profiad asesu risg lywio cynnwys eich hyfforddiant sefydlu / llawlyfr gwirfoddoli a'ch disgrifiadau o rolau gwirfoddolwyr.

Dylai fod yn broses ystyrlon sy'n dangos eich bod yn gofalu am eich gwirfoddolwyr – nid dim ond yn weithdrefn fiwrocraataidd a fwriedir i 'achub croen eich mudiad'!

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau tuag at bobl nad ydynt yn gyflogeion, a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r cyflogwr - fel gwirfoddolwyr ac aelodau o'r cyhoedd:

'...cyflawni'r ymrwymiad hwn yn y fath fodd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol bosib, nad yw'r unigolion na chânt eu cyflogi ganddo ond y gellir effeithio arnynt, trwy hynny, yn dod i gysylltiad â risgiau i'w hiechyd na'u diogelwch'

'...rhoi i'r unigolion (nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddo) y gallai'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymiad hwn effeithio arnynt, y wybodaeth a bennir am y cyfryw agwedd ar y ffordd y mae'n cyflawni ei ymrwymiad ag y gall effeithio ar eu hiechyd neu'u diogelwch'



Dolen Allanol

Gallwch ddarllen y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei chyfanrwydd ar wefan ddeddfwriaeth y llywodraeth [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)

Gwybodaeth bellach

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

www.hse.gov.uk

Canllawiau ar wirfoddoli unigol

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<https://www.hse.gov.uk/toolbox/workers/lone.htm>

Canllawiau ar wirfoddoli o gartref

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<https://www.hse.gov.uk/toolbox/workers/home.htm>

Rhestr wirio Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE)

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<https://www.hse.gov.uk/pubns/ck1.htm>

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - Safon

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

<https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard>

Taflenni gwybodaeth ychwanegol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.